Annwyl bawb

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn gythryblus yma, â llu o sialensiau o'n blaenau o hyd, rhaid i ni beidio ag anghofio am y sylfaen o lwyddiannau yr adeiladwyd diwydiant Bwyd a Diod Cymru arni.

Fe gychwynnon ni 2020 â'r diwydiant ar echel o dwf oedd yn torri pob record ac yn rhagori ar bob targed. Yr egwyddorion oedd wrth wraidd y llwyddiant yna fydd yn mynd â ni i bendraw'r sialensiau a'r anawsterau sy'n ein hwynebu ni nawr yn sgil Covid19 a Brexit wrth i ni edrych ymlaen tua 2021.

Mae'r cydweithio rhwng y diwydiant a'r llywodraeth wedi bod yn allweddol wrth feithrin diwydiant bwyd a diod cadarn a llwyddiannus hyd yn hyn. Bydd gwaith mewn meysydd allweddol, gan gynnwys brandio, marchnata, sgiliau a chyllid, yn parhau i helpu'r diwydiant i ddod drwy'r storm a llewyrchu o'r newydd.

Wrth gwrs, nid oes unrhyw amheuaeth fod pandemig Covid19 wedi cael effaith ar bob cwr o'n diwydiant. Er y bu modd i rai busnesau bwyd a diod barhau fel arfer, neu ffynnu hyd yn oed yn 2020, mae llawer mwy wedi wynebu trafferthion enbyd, ac yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r byd lletygarwch. Yn anffodus, mae effaith y pandemig wedi gwneud busnesau'n llai gwydn i sialensiau Brexit, ac â llai o adnoddau i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Gyda hynny mewn golwg, beth yw ein blaenoriaethau fel Bwrdd ac fel llais y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru?

Cyhoeddwyd ein cynllun adfer yn sgil C19 yn gynharach eleni, ac roedd yn amlinellu'r prif lwybrau ymlaen i helpu busnesau, â map ffordd ymarferol i gynorthwyo busnesau trwy'r misoedd sydd i ddod ynghyd â chyngor ymarferol ar hybu a datblygu gwerthu ar lein, meithrin modelau busnes gwydn, rheoli risg, ychwanegu gwerth at gadwyni cyflenwi, cyllid fforddiadwy, achrediad i'r diwydiant, hyfforddiant a datblygu sgiliau.

Nawr, wrth i ni edrych tua'r wythnosau a'r misoedd sydd i ddod, daw monitro a dylanwadu ar y trafodaethau ynghylch cytundebau masnach yn gyfleoedd hanfodol bwysig ar gyfer diwydiant bwyd a diod Cymru wrth i'r trafodaethau a'r cytundebau esblygu.

Ein rôl ni yw cynnal cysylltiadau a helpu i ddylanwadu ar y cytundebau hyn lle gallwn, a sicrhau bod Cymru'n gweld manteision gwirioneddol ohonynt. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i bob un ohonom gadw golwg ar yr holl ddatblygiadau, a sicrhau bod y llywodraeth a chynrychiolwyr y diwydiant yng Nghymru'n rhannu cyfraniadau gwerthfawr a deallus â'r bobl yn San Steffan sy'n gyfrifol am negodi'r

cytundebau masnach. Fel diwydiant, rhaid i ni fod yn glir ynghylch beth rydyn ni am ei gael o'r trafodaethau, a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod hynny'n cael ei glywed.

Rhaid i ni fod yn glir hefyd ynghylch beth y mae Bwyd a Diod Cymru'n ei gynrychioli yng nghyd-destun y DU ac ar lefel ryngwladol. Rhaid i'n gwerthoedd brand cynaliadwy a'n USPs fod yn gallu rhoi mantais gystadleuol i ni ar y llwyfan hwnnw, a rhaid i ni weithio i gyfleu'r rhain i gynulleidfaoedd amrywiol.

Yn olaf, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar ddatblygu ein Strategaeth Bwyd newydd yn 2021, sy’n beth arall a fydd yn chwarae rôl bwysig wrth helpu ein diwydiant i dyfu a datblygu.

Mae hi'n sicr fod gennym rywbeth arbennig yng Nghymru, a bwyd a diod yw un o'n prif asedau a chyfleoedd. Rwy'n argyhoeddedig o hyd y bydd ein hysbryd cydweithredol yng Nghymru'n ein tywys ni trwy'r cyfnod anodd ac ymestynnol yma, a bydd y Bwrdd yn gwneud popeth yn ein gallu i gynnal a datblygu'r ethos yma trwy 2021.

Hoffwn orffen trwy ddiolch i bawb yn y diwydiant sydd wedi gweithio'n ddiflino eleni i gadw bwyd ar blatiau'r genedl ac i gadw eu busnesau i fynd yn yr amgylchedd busnes ymestynnol sydd ohoni. Byddwn ni'n dal ati i wneud popeth y gallwn ni i'ch cefnogi ac i bledio'ch achos yn 2021.

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**